



Adroddiad Blynyddol Craffu 2018-19



CRAFFU YNG NGWYNEDD



Cynghorydd
Simon Glyn



Cynghorydd
Beth Lawton



Cynghorydd
Eryl Jones-Williams



Cynghorydd
R. Medwyn Hughes

Cyflwyniad — Cadeiryddion

'Rydym yn craffu yng Ngwynedd er mwyn ceisio gwneud gwahaniaeth i drigolion y Sir.

Mae'r rôl craffu yn cadw hyd braich oddi wrth y gwasanaethau, gan gynnig argymhellion annibynnol i geisio gwella gwasanaethau a dal Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad.

Mae aelodau'r tri pwyllgor craffu – Cymunedau, Addysg ac Economi a Gofal wedi gweithio'n ddygn gydol y flwyddyn er mwyn ceisio gwneud gwahaniaeth i drigolion Gwynedd ac mae'n diolch yn fawr iddynt. Diolch hefyd i aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sydd a rôl i graffu materion corfforaethol yn ogystal a'u rôl archwilio. Derbyniwyd adroddiad calonogol gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn nodi fod ein trefniadau craffu yng Ngwynedd yn arddangos gwelliant.

Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell, ac felly rydym yn parhau i adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau bod craffu yn cyflawni ei rôl o gyfrannu at ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol i'r dyfodol.

Wedi dwy flynedd yn cadeirio y pwyllgorau craffu, mae'n amser trosglwyddo'r awenau i gadeiryddion newydd o fis Mai 2019 ymlaen. Dymunwn yn dda i'r unigolion fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb pwysig hwn am y ddwy flynedd nesaf.

Mae ein diolch yn fawr hefyd i drigolion Gwynedd, i'r Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill ac i swyddogion ar draws y Cyngor sy'n cefnogi'n hymdrechion i gyrraedd y nôd.

Cynghorydd Beth Lawton
Cadeirydd y Fforwm Craffu

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 2018-19

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Cadeirydd - Cyngorydd Simon Glyn
Is-gadeirydd - Cyngorydd Mike Stevens

Pwyllgor Craffu Gofal

Cadeirydd - Cyngorydd Eryl Jones-Williams
Is-gadeirydd - Cyngorydd Dewi Roberts

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Cadeirydd - Cyngorydd Beth Lawton
Is-gadeirydd - Cyngorydd Paul Rowlinson

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Cadeirydd - Cyngorydd R. Medwyn Hughes
Is-gadeirydd - Cyngorydd John Brynmor Hughes

Cynnwys

Pwyllgor Craffu Gofal

Gwasanaethau Anableddau Dysgu	Tud. 5
Adroddiad Blynyddol Cwynion—Oedolion (2017-18)	Tud. 5
Digartrefedd	Tud. 6
Awtistiaeth	Tud. 7
Pobl Ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor	Tud. 8
Materion Eraill	Tud. 9

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Cynllun Twf Economaidd Gogledd Cymru	Tud.10
Addysg yng Ngwynedd	Tud.11
Lleihau Baich Athrawon	Tud.12
Canolfannau Iaith	Tud. 12
Dyledion Pres Cinio	Tud. 12
Brexit	Tud. 13
Digwyddiadau yng Ngwynedd	Tud, 13
Materion Eraill	Tud. 14

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Tud. 15
Proses Dirprwyo gyda Threfniadau Cynllunio	Tud. 15
System Draenio Cynaliadwy	Tud. 16
Mân-ddaliadau	Tud. 16
Cynllunio a'r Iaith Gymraeg	Tud. 17
Materion Eraill	Tud. 18

Pwyllgor Craffu Gofal

GWASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU

Ym mis Medi 2018 fe ystyriwyd adroddiad a chynllun gweithredu a luniwyd gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dilyn arolwg o Wasanaeth Anableddau Gwynedd gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu

- Awgrymwyd edrych yn fanylach ar y ffigyrau a dadansoddi rhesymau am wrthod ceisiadau am gymorth a chefnogaeth.
- Tra'n ddiolchgar am y gwaith ychwanegol oedd yn cael ei wneud gan rai aelodau staff, gofynnwyd i'r Aelod Cabinet ystyried oedd hyn yn gynaliadwy ac i drafod hyn gyda grwpiau'r trydydd sector.
- Nodwyd pryderon am yr ôl-groniad o asesiadau Amddifadu o Ryddid (DoLS – Deprivation of Liberty Safeguards). Cytunodd y Pennaeth i ddarparu gwybodaeth i'r Cadeirydd o ran cynnydd yn y cyswllt hwn.
- Gofynnwyd i'r Adran rannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor ynglŷn â'r Grŵp Traws ffurfio Aml-ddisgyblaethol.

Croesawyd y gwaith sydd wedi digwydd dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf i geisio cyfarch argymhellion o'r arolwg a wnaed o'r Gwasanaeth. Roedd y Pwyllgor yn argyhoeddedig bod y Gwasanaeth yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond yn cydnabod, ar yr un pryd, bod yna lawer o waith i'w wneud eto.

ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION – OEDOLION (2017-18)

Ym mis Mehefin 2018 fe ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Cwynion (Oedolion) am 2017-18.

Prif bwyntiau o'r drafodaeth:

- Croesawyd yr enghreifftiau o lythyrau diolch o fewn yr adroddiad oedd yn galonogol dros ben.
- Cafwyd sicrwydd gan yr Aelod Cabinet bod yr Adran yn cymryd pob cŵyn o ddifri ac yn ceisio datrys problemau'n fuan.
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i nodi dyddiad targed gweithredu yn y log "gwersi i'w dysgu" yn hytrach na nodi 'mor fuan ag sy'n bosibl' gan yna nodi'r rheswm os oes unrhyw fethiant i weithredu o fewn yr amserlen.
- Eglurwyd ei bod yn anodd casglu ystadegau a data oherwydd bod llawer o'r cwynion yn cael eu cyflwyno yn anffurfiol ac yn cael eu datrys yn syth gan y timau perthnasol.
- Nodwyd pryder ynglŷn a phrinder gofalmwyr, yn enwedig yn Nwyfor a Meirionnydd, a bod hyn yn ychwanegu at nifer y cwynion.

Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad a'r ymatebion cadarnhaol a'u cyflwyno i'r Aelod Cabinet fel rhan o'i adroddiad i'r Cabinet.

Digartrefedd

Ym mis Medi 2018 cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn nodi bod Cyngor Gwynedd wedi cynnal Adolygiad Strategol ar Ddigartrefedd yn unol a gofynion Deddf Tai Cymru (2014). Ategwyd bod casgliadau'r adolygiad yn gosod sylfaen i ddatblygu Strategaeth Ddigartrefedd a bod y Gwasanaeth Tai ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gamau gweithredu lleol fyddai'n ymateb i amcanion a gofynion y Strategaeth.

Cyfeiriwyd at y crynodeb gweithredol a gynhwyswyd yn yr adroddiad oedd yn cynnig dadansoddiad manwl o lefelau a natur digartrefedd, awdit o'r gwasanaethau ac adolygiad o'r adnoddau sydd i'w cael ar gyfer digartrefedd yn y Sir. Ategwyd bod y crynodeb gweithredol yn darparu tystiolaeth ar gyfer Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru ochr yn ochr a Chynllun Gweithredu Darpariaeth Leol Digartrefedd Gwynedd.

Yn ystod y drafodaeth yn y Pwyllgor, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen ystyried darpariaeth y sector breifat – angen sicrhau bod safon y tai yn cyrraedd y gofynion statudol
- Bod yr adolygiad yn cyfleu'r problemau ond dim datrysiadau
- Bod angen dod a mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd
- Wylfa – angen cydweithio gydag Ynys Môn i geisio adnabod elfennau fydd yn creu effaith
- Bod angen rhannu ymarfer da gyda chynghorau eraill.
- Awgrymu adolygu'r system pwyntiau – nid yw'r drefn bresennol yn adlewyrchu sefyllfa argyfyngus unigolion/teuluoedd
- A yw dyfodiad Airbnb yn lleihau niferoedd eiddo sydd ar gael ar gyfer cartrefi?
- Awgrym i greu rhestr o'r ddarpariaeth sydd ar gyfer y digartrefedd fesul ardal
- A oes modd i'r Cyngor sefydlu cwmni hyd braich i ddarparu tai cymdeithasol?

Nododd yr Aelod Cabinet bod adolygiad o'r system bwyntiau yn cael ei gynnal ac y bydd cyfle i ymgynghori ar y cynigion. Amlygwyd hefyd y caiff Strategaeth Tai ei chyflwyno yn fuan fydd yn adnabod meysydd penodol sydd angen sylw. Byddai hyn yn gyfle i ystyried syniadau amgen a chreadigol.

Penderfynwyd:

- **Derbyn yr wybodaeth**
- **Llongyfarch y Gwasanaeth am gyrraedd rhestr fer 'Cymorth Cymru'**
- **Gofyn i'r Aelod Cabinet gyfarch sylwadau'r Aelodau wrth lunio'r Strategaeth Tai**



Awtistiaeth

Ym mis Medi 2018 cyflwynwyd adroddiadau gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a'r Aelod Cabinet Addysg.

Sylwadau Aelodau

- Bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi pobl cyn iddynt fynd yn ynysig a bod ymyrraeth gynnar yn arwain at arbediad ariannol yn y pen draw
- Ystyried penodi swyddog cydlynu gwasanaethau awtistiaeth
- Bod angen codi ymwybyddiaeth ysgolion o awtistiaeth fel y gellid ymyrryd yn yr ysgolion eu hunain ple gwelir plant yn isel ar y sbectrwm
- Nodwyd pryder yr Aelodau am ddyfodol y Ganolfan Awtistiaeth yn Ysgol Coed Mawr, Bangor a gofynnwyd am fanylion a diweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg.
- Mynegwyd pryder am anghysondeb y gwasanaeth a bod angen cysoni ar draws yr ysgolion.
- Gofynnwyd am adroddiad manwl i'r Pwyllgor am blant sy'n derbyn addysg yn all-sirol
- Pwysleisiwyd bod swydd y Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn swydd allweddol o fewn y gwasanaeth, ac er sicrhau dilyniant, erfyniwyd am gadw'r swydd, ar ôl i'r deilydd presennol ymddeol.
- Llongyfarchwyd a diolchwyd i staff Derwen am eu gwaith gwych.

Croesawyd y ffaith bod cydweithio rhwng y dair Adran a bod datblygiadau cadarn o safbwynt cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd.



Pobl Ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor



Ym mis Ionawr 2019 cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc sy'n darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ar bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr Aelodau. Amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:-

- Llwyddiant y gwasanaeth a gynigir i bobl ifanc rhwng 21 a 25 oed gyda'r ffaith bod 38 o'r 40 achos sy'n agored wedi dewis parhau i dderbyn y gefnogaeth.
- Croesawyd y ffaith bod y cynghorwyr presennol yn cynorthwyo'r bobl ifanc i hawlio'r gefnogaeth i'r trefniadau cydweithio gyda'r prifysgolion, sydd bellach yn rhoi cydnabyddiaeth i sefyllfa pobl ifanc sy'n gadael gofal, e.e. drwy ganiatáu ymestyn hyd eu cwrs.
- Nodwyd ei bod yn amlwg bod dealltwriaeth yr Adran o ddatblygiad y bobl ifanc wedi gwella a'u bod felly'n gallu rhoi'r gefnogaeth briodol iddynt ar yr ad-eg iawn.
- Awgrymwyd bod geiriad llythyr y gwasanaeth at ymadawyr gofal (a gynhwyswyd yn yr atodiad i'r adroddiad) yn hir ac yn gymhleth ac y gallai fod yn fwy cynhwysol. Er hynny, cydnabyddir yr anhawster oherwydd y disgwyliad i'r llythyr gyd-fynd a chynnwys adroddiad y Comisiynydd Plant.
- Roedd yn dda gan yr Aelodau ddeall bod grwp brwdfrydig o bobl ifanc a gweithwyr yn awyddus i ail sefydlu Grwp Llety a Chefnogaeth Pobl Ifanc. Croesawyd y bwriad i ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Pwysleisiwyd mai'r hyn sy'n bwysig yw bod pob unigolyn yn cyrraedd ei lawn botensial, ac er bod hynny'n cael ei fesur gan yr Adran, nid yw'n cael ei arddangos yn ystadegau'r Llywodraeth ar ganlyniadau TGAU plant mewn gofal.

Materion eraill sydd wedi cael sylw gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal

- Anawsterau Recriwtio – disgwylir adroddiadau CELyn ac Adroddiad Bwrdd Iechyd Gofal Canolbarth Cymru
- Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant a Theuluoedd)
- Cyfarfodydd Achos ym Mhwllheli yn dilyn trosglwyddo o Frondeg i Ffordd y Cob
- Polisi Gosod Tai cymdeithasol
- Arolwg Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Gwynedd
- Taliadau Tai dewisol

Materion eraill a gyfeiriwyd at Raglen Waith 2019-20

Cyfeiriwyd y canlynol at Raglen Waith Craffu y flwyddyn nesaf:

- Frondeg, Caernarfon – datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu
- Effaith arbedion a thoriadau – ystyried effaith 10 mlynedd ers cyflwyno'r Strategaeth Arbedion gyntaf yn 2007 ym maes gofal
- Plant gydag anableddau – angen rhoi ystyriaeth cyson fel rhan o adroddiadau a phennu testun penodol i'w graffu
- Gordewdra
- Aseiad Anghenion Poblogaeth Lleol
- Pobl nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Gwaith (NEETS)
- Gorwariant Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Materion a gyfeiriwyd ymlaen

Materion a gyfeiriwyd ymlaen i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:

Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Eleni, mae nifer fawr o eitemau a graffwyd gan y Pwyllgor wedi bod gerbron ar fwy nag un achlysur. Ymhellach, mae nifer o bynciau a graffwyd wedi arwain at gynnal sesiynau gwybodaeth arbennig i'r holl Aelodau yn sgîl argymhellion y Pwyllgor. Gweler y manylion isod.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

CYNLLUN TWF ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Un o'r datblygiadau mwyaf eleni yw y gwaith rhanbarthol i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'n ddatblygiad hynod gyffrous i'r Sir ac i'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi ystyried y mater ar fwy nag un achlysur gan ddatgan:

- Bod budd economaidd am ddod i Wynedd yn sgîl y datblygiadau
- Bod risgiau ariannol yn cael eu cyfarch
- Bod statws i'r Gymraeg yn y Cyd-bwyllgor a'r holl drefniadau yn allweddol
- Bod angen herio'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau atebolrwydd gwleidyddol am ddatblygiadau rhanbarthol o fewn yr Awdurdod.

Argymhellwyd hefyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgymryd a rôl awdurdod lleol ar gyfer y datblygiad. 'Rydym yn falch iawn fod y Cyngor wedi ymgymryd a'r swyddogaeth honno.

Gan fod y gwaith hwn yn ddatblygiad mor allweddol, roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn y dylai holl Gynghorwyr Gwynedd fod yn ymwybodol o'r datblygiadau yn y maes. Felly, cynhaliwyd nifer o sesiynau i'r holl Aelodau er mwyn ceisio codi ymwybyddiaeth a sicrhau dealltwriaeth lawn o'r hyn y mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni.

Addysg yng Ngwynedd

CANLYNIADAU ADDYSGIADOL HAF 2018

Bu i'r Pwyllgor edrych ar ganlyniadau'r Haf ar draws yr ystod oedran. Adroddwyd fel a ganlyn:

- Nodwyd bod gostyngiad sylweddol yng nghanlyniadau Saesneg, Cyfnod Allweddol 4 (TGAU), a bod newid di-rybudd yn ffiniau gradd-feydd y pwnc.
- Nodwyd pryder am yr effaith sylweddol ar yr unigolion oedd yn derbyn cymhwyster yn Haf 2018 a gofynnwyd i'r Aelod Cabinet drafod gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau na fyddai yna unrhyw newid ffiniau i'r un graddau mewn unrhyw bwnc i'r dyfodol.
- Yn ogystal, mae aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ein hathrawon, sy'n gweithio'n galed i geisio sicrhau bod ein pobl ifanc yn llwyddo.

Ymhellach, rhoddwyd sylw yn ystod y flwyddyn i gyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol, ac mae'r Aelodau wedi mynegi eu rhwystredigaeth gyda'r gofynion adrodd ar berfformiad newydd a'r dasg anodd wedyn i graffu ar gyrhaeddiad. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i graffu ar ganlyniadau er mwyn sicrhau chwarae teg i holl bobl ifanc Gwynedd yn ogystal a sicrhau fod y gefnogaeth briodol yn cael ei roi i gyrraedd yr ansawdd gofynnol ym mhob ysgol.



Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol fod yna newidiadau pell gyrhaeddol ar y gweill ym myd Addysg. Unwaith eto, roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod yma fater penodol oedd o ddiddordeb i'r holl Aelodau. Cynhaliwyd sesiwn arbennig oedd yn agored i'r holl Aelodau i gael gwybodaeth am y datblygiadau hyn, gyda chyfle i holi swyddogion yr Adran a GwE ynglŷn â'r paratodau.

Lleihau Baich Athrawon

Cynhaliwyd sesiwn i graffu'r gwaith sy'n cael ei wneud i leihau'r baich ar athrawon (yn arbennig athrawon sy'n arwain ein hysgolion). Gwelwyd fod gwaith da wedi ei wneud i geisio osgoi dyblygu a rhoi llwyfan i arweinyddion ysgolion rannu ymarfer da. Roedd aelodau'r pwyllgor yn falch fod gwaith wedi ei wneud, ond yn nodi'r angen i barhau i geisio lleihau'r baich gweinyddol ar arweinyddion ysgolion i'r dyfodol mewn cydnabyddiaeth bod mwy o anghenion yn dod arnynt yn gyson.



Canolfannau Iaith

Cafodd y Pwyllgor Craffu gyfle i graffu ar y datblygiadau ym maes canolfannau iaith cyn i'r mater gael ei drafod gan y Cabinet. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i waith y canolfannau yn y drafodaeth.



Dyledion Pres Cinio

Daeth i sylw'r Pwyllgor fod cryn ddyled yn cronni gyda thalu am ginio ysgol i ddisgyblion. Craffwyd ar y mater hwn, a heriwyd y gwasanaeth i fod yn mynd i'r afael gyda'r mater rhag gadael i deuluoedd gyrraedd dyled enfawr sy'n methu cael ei ad-dalu. Nodwyd bod camau mewn lle i wella'r sefyllfa, ond roedd ffocws hefyd ar yr angen i ymdrin a'r sefyllfa yn sensitif a galluogi teuluoedd i dalu fesul tipyn.

Brexit

Mae 2018/19 wedi bod yn flwyddyn ple mae datblygiadau Brexit wedi cael cryn sylw! Mae'r Pwyllgor Craffu wedi rhoi sylw i Brexit o dan ddau bennawd penodol, sef:

- Cefnogaeth y Cyngor i fusnesau bychain i baratoi ar gyfer Brexit
- Paratodau Cyngor Gwynedd ar gyfer goblygiadau posib Brexit i'w wasanaethau.

Noder – gan ei fod yn faes gwaith ple bo newidiadau cyson i'r arweiniad a geir, mae'r sylwadau yn adlewyrchu'r sefyllfa a wynebwyd yn ystod 2018/19

Mae rhan sylweddol o'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau yn cael ei ddarparu ar ran awdurdodau Cymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bu i swyddog o'r Gymdeithas ymweld â'r Cyngor i roi diweddariad i Aelodau, a chafwyd diweddariad gan swyddogion y Cyngor ar y paratodau mewnol ar gyfer Brexit.



Digwyddiad beicio yn Dinas Mawddwy

Effaith Digwyddiadau yng Ngwynedd

Braf oedd cael y cyfle i graffu ar effaith digwyddiadau yng Ngwynedd a chael cyfle i ddeall yn iawn sut mae cyfraniad ariannol bychan gan y Cyngor yn caniatáu i wahanol rannau o'r Sir elwa'n sylweddol.

Craffwyd ar y prosiectau oedd yn derbyn cefnogaeth yn gyfredol, gan nodi fod pob ardal o Wynedd yn weithgar iawn ac yn derbyn cefnogaeth i'w digwyddiadau.



Coron Driphlyg yn Abersoch.

Materion eraill sydd wedi cael sylw gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Cipolwg yn unig o'r materion a graffwyd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi sydd wedi ei nodi yma. Rhoddwyd sylw i nifer o feysydd eraill fel a nodir isod. Yn anffodus, ni lwyddwyd i roddi sylw i bopeth, a chyfeiriwyd rhai materion ymlaen i raglen waith 2019-20.

MATERION ERAILL GAFODD SYLW:

- Hafan a Harbwr Pwllheli
- Rôl Swyddogion Adfywio Bro
- Canolfannau Byw'n Iach Gwynedd
- Côt Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Adroddiad Blynyddol Addysg

MATERION SYDD EISOES WEDI EU RHAGLENNU AR GYFER SYLW YN 2019-20:

- Strategaeth Iaith Uwchradd
- Siarter Iaith Cynradd
- Elwa o dwristiaeth

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn adrodd ar y cynnydd a wnaed i gyfarch 34 argymhelliad a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn dilyn ymchwiliad o ddarpariaeth gorfodaeth cyfraith bwyd y Cyngor. Adroddwyd ar y cynnydd a wnaed i gwrdd â'r argymhellion yn unol â'r cynllun yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y 10^{fed} o Hydref 2017.

Yn Chwefror 2018 bu i swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd ail ymweld a'r Gwasanaeth i asesu cynnydd pellach ar y Cynllun Gwella. Adroddwyd bod 20 o'r argymhellion yn parhau i fod ag angen gweithrediad pellach.



PENDERFYNWYD:

Derbyn cynnwys adroddiad Aelod Cabinet yr Amgylchedd, gan dderbyn nad yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ym maes Safonau Bwyd.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn dymuno tynnu sylw Aelodau'r Cabinet at eu cyfrifoldeb yn y maes yma, ac yn argymhell eu bod yn cysylltu'n syth gyda Llywodraeth Cymru i ofyn am adnoddau ychwanegol i gyflawni'r gofyniad statudol.

Proses Dirprwyo gyda Threfniadau Cynllunio

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd yn ymateb i bryderon ynglŷn â'r broses dirprwyo yng nghyd-destun penderfyniadau oedd yn ymwneud â Phlas Pistyll. Yn gynwysedig yn yr adroddiad cafwyd hanes cynllunio manwl y cais ynghyd â Chynlluniau Dirprwyo Cynllunio cyfredol a blaenorol Gwynedd. Nododd yr Aelod Cabinet ei fod wedi comisiynu darn o waith i gasglu gwybodaeth fyddai'n ymateb i bryderon a'r diffyg dealltwriaeth o sut cafwyd y penderfyniad ei wneud yn ogystal â darganfod os oedd y drefn dirprwyo wedi ei dilyn yn briodol.

System Draenio Cynaliadwy

Cyflwynwyd adroddiad gan Ymgynghoriaeth Gwynedd yn amlygu goblygiadau i'r Cyngor a datblygwyr drwy weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010. Yn unol a'r Ddeddf rhaid i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) sy'n bodloni safonau cenedlaethol. Nodwyd bod hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu corff fydd yn derbyn cymeradwyo, mabwysiadu a gorfodi nodweddion SDC, yn unol a'r Rheoliadau newydd – sef y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCS).

Yn ystod y drafodaeth yn y Pwyllgor, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod pwysau o chostau cynyddol ar ddatblygwyr
- Byddai'r gost yn ychwanegu at bris gwerthiant tai ac felly y byddai'n amhosibl darparu tai fforddiadwy
- Bod hwn yn ofyn statudol pellach ar yr Awdurdod heb gyllid ychwanegol
- Bod angen sicrhau trefniadau da a thryloyw ynghyd â chreu perthynas dda gyda datblygwyr

Mân-ddaliadau

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Eiddo yn manylu ar egwyddorion rheoli stâd mân ddaliadau y Cyngor. Nodwyd, yn 2008, bod adolygiad cynhwysfawr wedi ei gynnal i edrych ar bwrpas y stâd, ei pherfformiad ariannol a'r trefniadau rheoli. Gyda degawd wedi mynd heibio ers yr adolygiad, ystyriwyd mai amserol fyddai ail ymweld â'r maes a chadarnhau'r rhesymeg sydd yn cefnogi pwysigrwydd parhau i ddarparu mân ddaliadau yn y Sir.



Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac argymhellwyd i'r Aelod Cabinet ystyried sefydlu un panel ar draws y Sir gyda chyfansoddiad clir, ystyried sefydlu cwmni hyd braich yn y tymor hwy, cadw yr adnodd staff dros dro, ac ystyried ail-fuddsoddi unrhyw elw, tu hwnt i'r ffigur sydd wedi ei glustnodi, yn ôl yn y stâd.

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

- Mae cyfraith cynllunio yng Nghymru yn gymhleth ac yn anodd ei deall mewn manau.
- Gall cynllunio defnydd tir mewn ffordd effeithiol gyfrannu at ddatblygiad economaidd cadarn, at gadw asedau naturiol ac at wella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau.
- Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn darparu'r fframwaith polisi i awdurdodau cynllunio lleol baratoi eu Cynlluniau Datblygu yn effeithiol ac fe'i hategir gan Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) ar bynciau penodol.
- Yn ogystal, mae modd i awdurdodau lleol lunio Canllawiau Cynllunio Atodi (CCA) er mwyn helpu i sicrhau y caiff polisïau eu deall yn well.
- Fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26 ym mis Gorffennaf 2017.
- Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu ar 7 Rhagfyr 2017 i gyfrannu at lunio'r Canllaw Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.
- Cyflwynwyd argymhellion yr Ymchwiliad i gyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 24 Ebrill 2018.

Dyma'r argymhellion:

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer datblygiadau o 10+ o dai trefol a 5+ yn wledig.
- Datganiad iaith ac Asesiad iaith ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.
- Sicrhau mewnbwn arbenigol allanol ar Gynllunio Ieithyddol, Ymchwil, Dadansoddeg, Ymgynghori ac Ymgysylltu.
- Bod yr uchod yn cael cyfle i gyfrannu at y Canllaw drafft cyn ymgynghori arno'n gyhoeddus er mwyn uchafu gwerth o'r ymgynghoriad.



Materion eraill sydd wedi cael sylw gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Ystyried Prosiectau Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn

Gorfodaeth Gwastraff – ystyriwyd gwybodaeth gefndirol a sefydlwyd Ymchwiliad yn 2017. Mae'r Ymchwiliad yn parhau.

Toiledau Cyhoeddus – craffwyd y Strategaeth Toiledau drafft a gwnaed argymhellion i'r Cabinet.

Trosedd ac Anrhefn – ystyriwyd Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Trosedd ac Anrhefn. Roedd yr Aelodau'n hapus gyda gwaith y Bartneriaeth.

Trefniadau Rheoli Parcio – ystyriwyd opsiynau ar gyfer cynhyrchu incwm parcio a chyllido datblygiadau gan gynnwys mannau gwefru ceir trydan ar draws y Sir.

Trosi Adeiladau Amaethyddol – ystyriwyd gwybodaeth a rhwystrau i bobl leol ac yn 2017 gofynnwyd i'r Aelod Cabinet lobîo'r Llywodraeth er mwyn gwella'r sefyllfa.

Gor-ddatblygiad Meysydd Carafanau

Cludiant

Iechyd a Lles Anifeiliaid